CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

476/62

**HANES – HI6**

**UNED 6 (Asesiad Synoptig)**

**ASTUDIAETH FANWL 9**

# YR ALMAEN NATSÏAIDD, tua 1933-1945

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 6

## ASTUDIAETH FANWL 9

## YR ALMAEN NATSÏAIDD, tua 1933-1945

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.*

**1. Newidiadau yn hynt y Blaid Natsïaidd, tua 1933-1945**

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

Ffynhonnell A

'Yn groes i ddirwasgiad 1932, digwyddodd gwyrth economaidd ryfeddol, gwyrth a oedd yn sicrhau i bawb yr anghenion sylfaenol o leiaf, sef 'gwaith a bara', o 1936-1937 ymlaen, a gwyrth a oedd hefyd yn dechrau cwrdd â'r galw am nwyddau o ansawdd uwch. Roedd y bobl dlotaf hyd yn oed yn elwa, naill ai trwy gyflogaeth neu trwy'r ymgyrchoedd 'Cymorth y Gaeaf', a fu'n help yn eu tro i wneud i bobl deimlo fod pob un ohonynt yn perthyn i'r gymuned genedlaethol. Roedd y dosbarthiadau canol ar y cyfan yn ystyried bod y llywodraeth yn llesol i fuddiannau busnes.'

[D. Peukert, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar yr Almaen Natsïaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol, *Inside Nazi Germany: Conformity and Opposition in Everyday Life* (1987)]

Ffynhonnell B

'Mae'r gwŷr busnes bychan yn teimlo'n drist a digalon. A hwythau'n gyfrifol i raddau helaeth am roi'r system bresennol ar ei thraed, y bobl hyn sydd wedi'u siomi fwyaf. Mae'r prinder nwyddau'n rhoi cyfyngiadau ar eu trosiant *(turnover)*, ond does dim modd iddynt ymateb trwy godi eu prisiau oherwydd bod y gorchmynion *(decrees)* prisiau'n eu rhwystro rhag gwneud hynny. Mae'r crefftwyr yn cwyno gan fod prinder o nwyddau crai, does dim digon o ledr ar gael i'r cryddion *(shoemakers)* ac mae baich y trethi'n trymhau. Gellir dweud am lawer o'r gwŷr busnes bychan eu bod nhw ynddynt eu hunain wedi troi yn erbyn y system ers amser ac y byddent wrth eu bodd pe bai'n dod i ben.'

[Adroddiad gan *SOPADE*, yr wrthblaid sosialaidd alltud, yn rhoi asesiad o'r sefyllfa economaidd yng nghanolbarth yr Almaen (Gorffennaf 1939)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli'r newidiadau yn hynt y Blaid Natsïaidd, 1933-1945? [80]

CYDNABYDDIAETH

Atgynhyrchir Ffynhonnell A gyda chaniatâd caredig Chrysalis Books Group plc.

**2. Perthynas Hitler â dosbarth milwrol yr Almaen, tua 1933-1945**

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

<u>Ffynhonnell A</u>

'Mae'r fyddin yn sefyll mewn undod agos â'r genedl gyfan, gan ymfalchïo wrth iddi wisgo arwydd ailenedigaeth yr Almaen [*roedd y swastika newydd ddod yn rhan o'r iwnifform*], yn sefyll yn ddisgybledig a theyrngar y tu cefn i arweinyddiaeth y wladwriaeth, sef y Maeslywydd yn y Rhyfel Mawr ac Arlywydd y Reich, von Hindenburg, ei Chadlywydd Goruchaf, ynghyd â Führer y Reich, Adolf Hitler, a gododd ei hun o blith ein rhengoedd ni ac a fydd yn parhau yn un ohonom yn wastad.'

[Y Cadfridog von Blomberg, un o benaethiaid y fyddin, yn ysgrifennu mewn erthygl yn y *Volkischer Beobachter*, papur newydd swyddogol y Natsïaid (29 Mehefin 1934)]

<u>Ffynhonnell B</u>

'Digwyddodd y newid cyntaf yn agwedd y dosbarth milwrol yn 1936-1937 pan ddechreuodd Hitler ar ei lwybr ehangol *(expansionist)*. Daeth y tensiynau rhwng y dosbarth milwrol a'r arweinyddiaeth wleidyddol, a roddodd ddiwedd ar gyfnod Blomberg, yn fwy amlwg, ac ar yr un pryd rhoddodd hynny gyfle rhywfodd i feirniadaeth a gwrthwynebiad ymddangos yn agored am y tro cyntaf. Yng nghanol y newid hwn safai Pennaeth y Staff, y Cadfridog Ludwig Beck. Ac yntau'n gefnogwr ceidwadol i Hitler ers 1930, mynnodd Beck gael eglurhad am lofruddiaeth Schleicher a Bredow ac roedd yn gwrthwynebu'r symudiad i gyfeiriad rhyfel, a oedd yn dod yn amlwg iddo fel sylwebydd craff.'

[Karl D. Bracher, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar yr Almaen Natsïaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol am Hitler, *The Nazi Dictatorship* (1969)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli perthynas Hitler â dosbarth milwrol yr Almaen, 1933-1945? [80]